ATODLEN 7

Erthygl 21(5) a (6)

Gwaharddiadau ar draddodi deunydd perthnasol i ran arall o'r Undeb Ewropeaidd heb basbort planhigion

# RHAN A

## Deunydd perthnasol na chaniateir iddo gael ei draddodi i ran arall o'r Undeb Ewropeaidd onid yw pasbort planhigion yn mynd gydag ef

**1.** Planhigion, ac eithrio hadau, *Amelanchier* Med., *Chaenomeles* Lindl., *Cotoneaster* Ehrh., *Crataegus* L., *Cydonia* Mill., *Eriobotrya* Lindl., *Malus* Mill., *Mespilus* L., *Photinia davidiana* (Dcne.) Cardot, *Prunus* L., ac eithrio *Prunus laurocerasus* L. neu *Prunus lusitanica* L., *Pyracantha* Roem., *Pyrus* L. neu *Sorbus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu.

**2.** Planhigion, ac eithrio hadau, *Beta vulgaris* L. neu *Humulus lupulus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu.

**3.** Planhigion o rywogaethau *Solanum* L., sy'n ffurfio stolon neu gloron, a fwriedir ar gyfer eu plannu.

**4.** Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Choisya* Kunth, *Fortunella* Swingle, *Poncirus* Raf., *Casimiroa* La Llave, *Clausena* Burm. f., *Murraya* J. Koenig ex L., *Vepris* Comm., *Zanthoxylum* L. neu *Vitis* L.

**5.** Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Citrus* L.

**6.** Ffrwythau *Citrus* L., *Fortunella* Swingle, *Poncirus* Raf., gyda dail a phedynclau.

**7.** Y planhigion a ganlyn a gynhyrchwyd gan gynhyrchwyr y mae cynhyrchu a gwerthu'r planhigion hynny wedi eu hawdurdodi i bersonau sy'n ymwneud â chynhyrchu planhigion wrth fasnachu neu gynnal busnes, ac eithrio planhigion a baratowyd ac sy'n barod i'w gwerthu i'r defnyddiwr terfynol, ac a gynhyrchwyd ar wahân i gynhyrchion eraill o dan oruchwyliaeth corff cyfrifol swyddogol y wlad sy'n traddodi—

(a) planhigion, ac eithrio hadau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, o'r genera *Abies* Mill., *Apium graveolens* L. *Argyranthemum* spp., *Asparagus officinalis* L., *Aster* spp., *Brassica* spp., *Castanea* Mill., *Cucumis* spp., *Dendranthema* (DC.) Des Moul., *Dianthus* L., *Exacum* spp., *Fragaria* L., *Gerbera* Cass., *Gypsophilia* L, pob rhywogaeth o hybridau Guinea Newydd *Impatiens* L., *Lactuca* spp., *Larix* Mill., *Leucanthemum* L., *Lupinus* L., *Pelargonium* L'Hérit. ex Ait., *Picea* A. Dietr., *Pinus* L., *Platanus* L., *Populus* L., *Prunus laurocerasus* L., *Prunus lusitanica* L., *Pseudotsuga* Carr., *Quercus* L., *Rubus* L., *Spinacia* L., *Tanacetum* L., *Tsuga* Carr., *Ulmus* L., *Verbena* L. neu blanhigion eraill rhywogaethau llysieuol, ac eithrio planhigion o'r teulu Gramineae, a fwriedir ar gyfer eu plannu, neu fylbiau, cormau, rhisomau, hadau neu gloron;

(b) planhigion Solanaceae, ac eithrio hadau neu'r rheini a bennir ym mharagraff 3, a fwriedir ar gyfer eu plannu;

(c) planhigion Araceae, Marantaceae, Musaceae, *Persea* spp. neu Strelitziaceae, sydd â gwreiddiau neu sy'n gysylltiedig â chyfrwng tyfu neu yr ymddengys iddynt fod mewn cysylltiad â chyfrwng tyfu;

(d) planhigion Palmae, a fwriedir ar gyfer eu plannu, y mae diamedr bôn y coesyn yn fwy na 5 cm ac sy'n perthyn i'r genera a ganlyn: *Brahea* Mart, *Butia* Becc., *Chamaerops* L., *Jubaea* Kunth, *Livistona* R. Br., *Phoenix* L., *Sabal* Adans., *Syragrus* Mart., *Trachycarpus* H. Wendl., *Trithrinax* Mart. neu *Washingtonia* Raf.;

(e) hadau neu fylbiau *Allium ascalonicum* L., *Allium cepa* L. neu *Allium schoenoprasum* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu; planhigion *Allium porrum* L. a fwriedir ar gyfer eu plannu; neu hadau *Medicago sativa* L., *Helianthus annuus* L, *Solanum lycopersicum* L. neu *Phaseolus* L.; neu

(f) bylbiau, cormau, cloron neu risomau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, *Camassia* Lindl., *Chionodoxa* Boiss., *Crocus flavus* Weston "Golden Yellow", *Dahlia* spp., *Galanthus* L., *Galtonia candicans* (Baker) Decne., cyltifarau bychain y genws *Gladiolus* Tourn. ex. L. (megis *Gladiolus callianthus* Marais, *Gladiolus colvillei* Sweet, *Gladiolus nanus* hort., *Gladiolus ramosus* hort. neu *Gladiolus tubergenii* hort.), *Hyacinthus* L., *Iris* L., *Ismene* Herbert, *Lilium* spp., *Muscari* Miller, *Narcissus* L., *Ornithogalum* L., *Puschkinia* Adams, *Scilla* L., *Tigridia* Juss. neu *Tulipa* L.

**8.** Planhigion sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau o fewn ystyr Erthygl 1(2) o Benderfyniad 2002/757/EC sy'n tarddu o UDA.

**9.** Planhigion, ac eithrio hadau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, *Viburnum* spp., *Camellia* spp., *Rhododendron* spp., ac eithrio *Rhododendron simsii* Planch, sy'n tarddu o unrhyw drydedd wlad ac eithrio UDA, neu o'r Undeb Ewropeaidd.

**10.** Planhigion sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau o fewn ystyr Erthygl 1(b) o Benderfyniad 2007/365/EC.

**11.** Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(2) o Benderfyniad 2007/433/EC.

**12.** Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(a) o Benderfyniad 2012/138/EU sy'n tarddu o drydedd wlad lle y gwyddys bod *Anoplophora chinensis* (Forster) yn bresennol neu sy'n tarddu o ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 6 o'r Penderfyniad hwnnw, neu a gyflwynwyd i ardal o'r fath.

**13.** Cloron *Solanum tuberosum* L., gan gynnwys y rheini a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o drydedd wlad lle y gwyddys bod *Epitrix cucumeris* (Harris), *Epitrix similaris* (Gentner), *Epitrix subcrinita* (Lec.) neu *Epitrix tuberis* (Gentner) yn bresennol neu mewn ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 5 o Benderfyniad 2012/270/EU.

**14.** Planhigion, ac eithrio hadau, a fwriedir ar gyfer eu plannu, na allant ond tyfu mewn dŵr neu bridd sydd wedi ei drwytho â dŵr yn barhaol, ac sy'n tarddu o ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 5 o Benderfyniad 2012/697/EU.

**15.** Paill byw neu blanhigion a fwriedir ar gyfer eu plannu, ac eithrio hadau, *Actinidia* Lindl.

**16.** Planhigion tarddiol cyn-sylfaenol fel y'u diffinnir yn Erthygl 1(3) o Gyfarwyddeb Gweithredu'r Comisiwn 2014/98/EU neu ddeunydd cyn-sylfaenol fel y'i diffinnir yn Erthygl 2(5) o Gyfarwyddeb y Cyngor 2008/90/EC—

(a) sy'n perthyn i'r rhywogaethau Juglans regia L., Olea europaea L., Prunus amygdalus Batsch, P. amygdalus x P. persica, P. armeniaca L., P. avium (L.) L., P. cerasus L., P. domestica L., P. domestica x P. salicina, P. dulcis (Mill.) D.A. Webb, P. persica (L.) Batsch, neu P. salicina Lindley:

(b) a dyfwyd y tu allan i ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 4 o Benderfyniad (EU) 2015/789; ac

(c) sydd wedi treulio o leiaf ran o'u bywyd y tu allan i gyfleusterau sy'n ddiogel rhag pryfed.

**17.** Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(c) o Benderfyniad (EU) 2015/789 sydd wedi eu tyfu am o leiaf ran o'u bywyd mewn ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 4 o'r Penderfyniad hwnnw neu blanhigion cynhaliol *Xylella* o fewn ystyr Erthygl 1(b) o'r Penderfyniad hwnnw nad ydynt erioed wedi cael eu tyfu mewn ardal o'r fath.

**18.** Planhigion penodedig o fewn ystyr Erthygl 1(a) o Benderfyniad (EU) 2015/893 sy'n tarddu o drydedd wlad lle y gwyddys bod *Anoplophora glabripennis* (Motschulsky) yn bresennol neu sy'n

tarddu o ardal a sefydlwyd yn unol ag Erthygl 7 o'r Penderfyniad hwnnw, neu a gyflwynwyd i ardal o'r fath.

**19.** Planhigion *Fraxinus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu.

# RHAN B

## Deunydd perthnasol na chaniateir iddo gael ei draddodi i barth gwarchod mewn rhan arall o'r Undeb Ewropeaidd ond gan basbort planhigion sy'n ddilys ar gyfer y parth gwarchod hwnnw

**20.** Planhigion *Abies* Mill., *Larix* Mill., *Picea* A. Dietr., *Pinus* L. neu *Pseudotsuga* Carr.

**21.** Planhigion, ac eithrio hadau, *Beta vulgaris* L., *Platanus* L., *Populus* L., *Prunus* L., *Quercus* spp., ac eithrio *Quercus suber*, neu *Ulmus* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu.

**22.** Planhigion, ac eithrio ffrwythau neu hadau, *Amelanchier* Med., *Castanea* Mill., *Chaenomeles* Lindl., *Cotoneaster* Ehrh., *Crataegus* L., *Cydonia* Mill., *Eriobotrya* Lindl., *Eucalyptus* L'Hérit, *Malus* Mill., *Mespilus* L., *Photinia davidiana* (Dcne.) Cardot, *Pyracantha Roem*., *Pyrus* L., *Sorbus* L. neu *Vitis* L.

**23.** Planhigion Palmae, a fwriedir ar gyfer eu plannu, y mae diamedr bôn y coesyn yn fwy na 5 cm ac sy'n perthyn i'r tacsonau a ganlyn: *Areca catechu* L., *Arenga pinnata* (Wurmb) Merr., *Bismarckia* Hildebr. a H. Wendl., *Borassus flabellifer* L., *Brahea* Mart., *Butia* Becc., *Calamus merrillii* Becc., *Caryota maxima* Blume, *Caryota cumingii* Lodd. ex Mart., *Chamaerops* L., *Cocos nucifera* L., *Copernicia* Mart., *Corypha utan* Lam., *Elaeis guineenis* Jacq., *Howea forsteriana* Becc., *Jubae* Kunth, *Livistona* R. Br., *Metroxylon sagu* Rottb., *Phoenix* L., *Pritchardia* Seem. a H. Wendl., *Ravenea rivularis* Jum. a H. Perrier, *Roystonea regia* (Kunth) O.F. Cook, *Sabal* Adans., *Syagrus* Mart., *Trachycarpus* H. Wendl., *Trithrinax* Mart. neu *Washingtonia* Raf.

**24.** Paill byw ar gyfer peillio *Amelanchier* Med., *Chaenomeles* Lindl., *Cotoneaster* Ehrh., *Crataegus* L., *Cydonia* Mill., *Eriobotrya* Lindl., *Malus* Mill., *Mespilus* L., *Photinia davidiana* (Dcne.) Cardot, *Pyracantha* Roem., *Pyrus* L. neu *Sorbus* L.

**25.** Cloron *Solanum tuberosum* L. a fwriedir ar gyfer eu plannu.

**26.** Planhigion *Beta vulgaris* L. y bwriedir eu defnyddio ar gyfer prosesu diwydiannol.

**27.** Pridd o fetys neu wastraff heb ei sterileiddio o fetys (*Beta vulgaris* L.).

**28.** Hadau Beta vulgaris L., Castanea Mill., Dolichos Jacq., Gossypium spp. neu Phaseolus vulgaris L.

**29.** Ffrwythau (hadlestri) *Gossypium* spp. neu gotwm heb ei heislanu neu ffrwythau *Vitis* L.

**30.** Y planhigion a ganlyn a gynhyrchwyd gan gynhyrchwyr y mae cynhyrchu a gwerthu'r planhigion hynny wedi eu hawdurdodi i bersonau sy'n ymwneud â chynhyrchu planhigion wrth fasnachu neu gynnal busnes, ac eithrio planhigion a baratowyd ac sy'n barod i'w gwerthu i'r defnyddiwr terfynol, ac a gynhyrchwyd ar wahân i gynhyrchion eraill dan oruchwyliaeth corff cyfrifol swyddogol y wlad sy'n traddodi—

(a) planhigion, ac eithrio cormau, hadau neu gloron, *Begonia* L., a fwriedir ar gyfer eu plannu; neu

(b) planhigion, ac eithrio hadau, *Dipladenia* A.DC., *Euphorbia pulcherrima* Willd., *Ficus* L., *Hibiscus* L., *Mandevilla* Lindl. neu *Nerium* oleander L., a fwriedir ar gyfer eu plannu.